



General  
Osteopathic  
Council

## Canllaw i dystion



## CYNNWYS

Y daflen hon	3
Cyflwyniad	4
Trefnu i fynd i wrandawriad	4
Cyn y gwrandawriad	5
Eich cefnogi yn y gwrandawriad	6
Alla i wrthod mynd i'r gwrandawriad?	6
Paratoi i fynd i'r gwrandawriad	7
Yn ystod y gwrandawriad	8
Ar ôl y gwrandawriad	11

## Y DAFLEN HON

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) yw'r rheoleidiwr statudol ar gyfer y proffesiwn osteopathig yn y Deyrnas Unedig.

Mae cynnal diogelwch cleifion a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathig yn golygu bod yn rhaid i ni ystyried ac ymchwilio i gwynion am ymddygiad, cymhwysedd neu iechyd osteopathiaid. Er mwyn gwneud hyn rydym yn dibynnu ar gleifion ac aelodau'r cyhoedd i ddweud wrthym os oes ganddynt bryderon am osteopath cofrestredig. Mae rôl tystion yn hanfodol i'r broses hon.

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod tystion yn cael eu trin â pharch a sensitifrwyd. Nod y canllaw hwn yw helpu tystion i roi eu tystiolaeth orau mewn gwrandawriad.

Mae'r canllaw'n rhan o becyn amrywiol o gymorth yr ydym wedi'i threfnu, cyn, yn ystod ac ar ôl i dystion roi tystiolaeth, i sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol ac yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Fodd bynnag, dim ond cynnig canllawiau cyffredinol ellir ei wneud mewn taflen ac ni all roi sylw i'r holl amgylchiadau posib a allai godi. Rydym yn deall bod pob tyst yn unigryw, a byddwn yn ystyried amgylchiadau a gofynion pob un ohonynt.



## CYFLWYNIAD

Mae'n debygol y byddwch wedi rhoi datganiad tyst i ni sy'n ymwneud â chwyn rydym wedi'i derbyn am osteopath. Ein cyfrifoldeb ni yw profi achos yn erbyn yr osteopath. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i ni ystyried ac ymchwilio i gwynion am osteopathiaid mewn ffordd briodol. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth ysgrifenedig fel datganiadau tystion, adroddiadau, nodiadau cleifion, negeseuon e-bost a gwybodaeth berthnasol arall. Efallai y bydd angen i chi fynd i wrandawriad a rhoi tystiolaeth gerbron naill ai Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol neu Bwyllgor Iechyd.

## TREFNU I FYND I WRANDAWRIAD


Pan fydd y penderfyniad wedi'i wneud bod gofyn i chi roi tystiolaeth, bydd eich gweithiwr achos yn cysylltu â chi i drafod y dyddiadau y gallwch fynd i'r gwrandawriad. Byddwn yn ceisio cynnal gwrandawiadau ar y dyddiadau sydd fwyaf cyfleus i chi. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosib bob amser am amryw o resymau gan gynnwys, er enghraifft, pryd mae tystion eraill ar gael. Bydd eich gweithiwr achos yn eich hysbysu am ddyddiad y gwrandawriad cyn gynted ag y caiff ei gadarnhau. Yna byddwn yn gwneud trefniadau teithio addas a threfnu gwesty dros nos a thocynnau teithio ar eich cyfer chi os yw hynny'n briodol.

Mae'n bwysig hefyd eich bod yn rhoi gwybod i ni, cyn y gwrandawriad, am unrhyw anghenion hygyrchedd neu anghenion eraill sydd gennych (er enghraifft, mynediad i gadair olwyn, system dolen sain, neu ddehonglwr iaith neu arwyddion), fel y gallwn wneud y trefniadau angenrheidiol.



## CYN Y GWRANDAWIAD

Rydym eisiau gwneud yn siŵr eich bod yn gallu rhoi eich tystiolaeth orau, heb ofn, straen neu bryder. Un ffordd y gallwn wneud hyn yw drwy wneud yn siŵr ein bod yn egluro'r broses wrthych chi. Gallwn wneud hyn mewn sawl ffordd, er enghraifft drwy eich gwahodd i ymweld â lleoliad y gwrandawriad o flaen llaw. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch rhoi tystiolaeth, gallwch drafod hyn gyda'ch gweithiwr achos. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn nad ydych chi'n trafod eich tystiolaeth gydag unrhyw un arall.



Mae yna fideo byr ar ein gwefan i'ch helpu i ymglyfarwyddo â lleoliad gwrandawriad. Bydd hyn yn rhoi syniad i chi o beth i'w ddisgwyl ar ddiwrnod y gwrandawriad. Byddwch yn gweld ein derbynfa, cynllun ystafell y gwrandawriad, a ble byddwch yn eistedd i roi eich tystiolaeth. Mae'r fideo i'w weld ar dudalen YouTube y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, 'GenOstCouncil'.

## EICH CEFNOGI YN Y GWRANDAWIAD

Yn ogystal ag unrhyw ofnion hygyrchedd sydd gennych, mae'n bwysig hefyd eich bod yn rhoi gwybod i ni os oes unrhyw beth arall a allai ei gwneud yn anodd i chi roi tystiolaeth, fel iselder neu bryder, neu os ydych yn cael anhawster mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, fel y gallwn wneud y trefniadau angenrheidiol. Er enghraifft, gallwn sicrhau bod y pwyllgor yn ymwybodol o hyn a'u bod yn gofyn am seibiannau cyson yn ystod eich tystiolaeth.

Mewn achosion sy'n ymwneud â honiadau am ymddygiad rhywiol amhriodol neu, er enghraifft, os ydych yn oedrannus neu ag anabledd, gallwn wneud trefniadau arbennig all eich helpu i roi eich tystiolaeth yn fwy effeithiol, a cheisio lleihau unrhyw bryder a allai fod gennych. Cyfeirir at y rhain fel 'mesurau arbennig' yn aml a gall gynnwys rhoi tystiolaeth y tu ôl i sgrin neu drwy gyswllt fideo fel na fyddai'n rhaid i chi fod yn ystafell y gwrandawriad wrth roi eich tystiolaeth.

## ALLA I WRTHOD MYND I'R GWRANDAWIAD?

Gan eich bod wedi cytuno i roi datganiad tyst, rydym yn gobeithio y byddwch yn barod i fynd i'r gwrandawriad hefyd. Mae'n bosib y byddwn yn gofyn i'r pwyllgor gyhoeddi gwys tyst o bryd i'w gilydd. Mae hyn yn golygu y gellid dweud wrthyh fod rhaid i chi fynd i wrandawriad i roi tystiolaeth neu gyflwyno dogfennau. Gall hyn ddigwydd am nifer o resymau, er enghraifft efallai na fydd eich cyflogwr yn barod i roi amser i ffwrdd o'r gwaith i chi i fynd i'r gwrandawriad. Os cewch eich gwysio ond nad ydych yn ymddangos, efallai y cewch eich erlyn am gyflawni trosedd o dan y *Ddeddf Osteopathiaid*.




## PARATOI I FYND I'R GWRANDAWIAD

Cyn i chi fynd i'r gwrandawriad, cofiwch:

- sicrhau eich bod wedi darllen eich datganiad ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill yn drylwyr;
- edrych yn ofalus ar fanylion eich taith a rhoi digon o amser i chi'ch hun gyrraedd lleoliad y gwrandawriad mewn da bryd;
- dod â'ch sbectol ddarllen gyda chi (os oes angen);
- rhoi gwybod i ni os oes unrhyw gymorth ychwanegol y gallech fod ei angen.

**Rhaid i chi beidio** â thrafod yr achos na'ch tystiolaeth gydag unrhyw un heblaw'ch gweithiwr achos.





## YN YSTOD Y GWRANDAWIAD

Ar ddiwrnod y gwrandawriad, pan fyddwch yn cyrraedd dylech fynd at y dderbynfa lle bydd aelod o'n staff yn eich cyfarch cyn mynd â chi i ystafell aros. Mae'n debyg y bydd yn rhaid i chi ddisgwyl cyn rhoi eich tystiolaeth. Bydd lluniaeth fel coffi, te a dŵr ar gael i chi tra byddwch yn disgwyl.

Bydd ein cynrychiolydd cyfreithiol yn cwrdd â chi ar fore'r gwrandawriad i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ac i gadarnhau eich bod yn barod i roi eich tystiolaeth. Os ydych yn teimlo bod angen mwy o amser arnoch neu os ydych am siarad â'n cynrychiolydd cyfreithiol cyn dyddiad y gwrandawriad, dywedwch wrth eich gweithiwr achos.

Mae croeso i chi ddod â rhywun gyda chi i'r gwrandawriad i'ch cefnogi – ffrind neu berthynas efallai. Fodd bynnag, peidiwch â dod â phlant neu anifeiliaid anwes gyda chi. Os nad oes modd i chi adael eich plant gyda rhywun, gwnewch yn siŵr eich bod yn dod ag oedolyn arall gyda chi a fydd yn gofalu am y plant tra byddwch yn rhoi tystiolaeth.



Weithiau gall achos gael ei ohirio. Mae gohirio'r cyfarfod yn golygu toriad yn y gwrandawriad cyn iddo ddod i ben. Gallai hyn fod am gyfnod byr tra bydd y pwyllgor yn cael cinio neu gallai fod am gyfnod hwy oherwydd bod y pwyllgor angen mwy o amser i dderbyn tystiolaeth a gwneud eu penderfyniad. Os yw hyn yn golygu na allwch gwblhau eich tystiolaeth ar y diwrnod hwnnw, byddwn yn gofyn i chi ddychwelyd ar ddiwrnod gwahanol. Bydd eich gweithiwr achos yn trafod hyn gyda chi.

Mae gwrandawiadau'n cael eu cynnal yn gyhoeddus fel arfer. Mae hyn yn golygu bod aelodau'r wasg a'r cyhoedd yn gallu bod yn bresennol. Fodd bynnag, mae gwrandawiadau gerbron y Pwyllgor lechyd yn cael ei gynnal yn breifat.

Nid yw enwau tystion yn cael eu defnyddio yn ystod gwrandawiadau fel arfer. Yn lle hynny, cyfeirir atoch, er enghraifft, fel claf A.

Fel arfer, rydym yn cael gwybod os bydd aelodau o'r cyhoedd neu'r wasg mewn gwrandawriad. Os cawn wybod ymlaen llaw, byddwn yn rhoi gwybod i chi hefyd.

Gwnewch yn siŵr bod eich ffôn symudol wedi'i ddiffodd cyn i chi fynd i mewn i ystafell y gwrandawriad. Ni chaniateir camerâu, recordwyr tâp nac unrhyw ddyfais arall sy'n gallu gwneud cofnod parhaol yn ystafell y gwrandawriad.

Pan fydd yn amser i chi roi tystiolaeth, bydd aelod o'n staff yn eich tywys i ystafell y gwrandawriad ac i'r sedd lle byddwch yn rhoi tystiolaeth. Bydd gofyn i chi dyngu llw yn ôl eich cred grefyddol, neu gadarnhad (sef datganiad difrifol os nad ydych am dyngu llw). Yna bydd cadeirydd y pwyllgor yn eich cyflwyno i'r bobl yn ystafell y gwrandawriad, gan gynnwys aelodau'r pwyllgor, yr asesydd cyfreithiol, ein cynrychiolydd cyfreithiol a chynrychiolydd cyfreithiol yr osteopath.

Rhan o waith y cadeirydd yw gwneud yn siŵr bod y gwrandawriad yn cael ei reoli'n deg, gan gynnwys sicrhau nad oes cwestiynau amhriodol neu elyniaethus yn cael eu gofyn i chi.

Bydd y pwyllgor wedi darllen eich datganiad ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill yn ymwneud â'r achos. Efallai na fydd gofyn i chi ddarllen eich datganiad ond, os gofynnir i chi wneud hynny, bydd ein cynrychiolydd yn trafod hyn gyda chi cyn i chi roi eich tystiolaeth. Bydd ein cynrychiolydd cyfreithiol yn gofyn i chi gadarnhau eich llofnod ar eich datganiad a bod cynnwys eich datganiad yn wir. Efallai y bydd ganddynt ragor o gwestiynau i'w gofyn i chi.

Yna bydd gan gynrychiolydd cyfreithiol yr osteopath gyfle i ofyn cwestiynau i chi. Wedyn, bydd gan ein cynrychiolydd cyfreithiol ni gyfle arall i ofyn mwy o gwestiynau i chi os oes angen. Pan fydd y ddau gynrychiolydd cyfreithiol wedi gorffen gofyn cwestiynau i chi, bydd y pwyllgor yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i chi wedyn. Yn ystod eich tystiolaeth efallai y cyfeirir eich sylw at ddogfennau a fydd mewn bwndel ar y ddesg tystion ac efallai y gofynnir cwestiynau i chi amdanynt. Mae'n bwysig iawn eich bod yn darllen unrhyw ddogfennau y cyfeirir eich sylw chi atynt yn ofalus cyn ateb cwestiynau.

## Cofiwch

- Dylech gymryd eich amser a gwrandao'n ofalus i wneud yn siŵr eich bod yn deall unrhyw gwestiynau sy'n cael eu gofyn i chi.
- Rhowch eich atebion yn glir ac yn araf.
- Os nad ydych yn gwybod yr ateb i gwestiwn neu os nad ydych yn ei ddeall, dylech ofyn am eglurhad. Peidiwch â bod ofn gofyn am seibiant byr – rhowch wybod i aelod o'r staff neu'r cadeirydd os ydych angen un.
- Os yw'r pwyllgor yn gohirio'r gwrandawriad am unrhyw reswm tra'r ydych yn rhoi tystiolaeth, mae'n bwysig iawn nad ydych yn trafod eich tystiolaeth gydag unrhyw un, gan gynnwys ein cynrychiolydd cyfreithiol, yn ystod yr egwyl.

## AR ÔL Y GWRANDAWIAD

Bydd y cadeirydd yn cadarnhau gyda chi pan fyddwch wedi gorffen rhoi eich tystiolaeth. Yna byddwch yn gallu gadael y gwrandawriad neu aros os yw'n cael ei gynnal yn gyhoeddus. Os byddwch yn dewis aros, bydd aelod o'r staff yn dangos i chi ble i eistedd.

Bydd eich gweithiwr achos yn dweud wrthy ch beth yw canlyniad yr achos. Rydym yn cyhoeddi copi o'r penderfyniad ar ein gwefan hefyd.

Bydd eich gweithiwr achos yn ymdrin â'ch hawliad am dreuliau, ac unrhyw gwestiynau sydd gennych. Mae hyn yn cynnwys unrhyw fân dreuliau sy'n gysylltiedig â mynd i'r gwrandawriad, fel cinio neu deithio. Fodd bynnag, nid ydym yn talu unrhyw gyflog a gollir fel arfer.

Rydym wedi ymrwymo i wella ein proses gwrandawiadau. Mae eich help wrth gyflawni hyn yn allweddol. Er mwyn ein helpu gyda hyn, byddem yn hynod ddiolchgar pe gallech chi lenwi ffurflen adborth tyst. Bydd eich gweithiwr achos yn ei rhoi i chi ar ôl i chi orffen rhoi eich tystiolaeth.

Gobeithio bydd y canllaw hwn yn ddefnyddiol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'ch gweithiwr achos.

**[regulation@osteopathy.org.uk](mailto:regulation@osteopathy.org.uk)**  
**020 7357 6655 x224**



General  
Osteopathic  
Council

Osteopathy House • 176 Tower Bridge Road • London SE1 3LU  
ffôn: 020 7357 6655 • email: [info@osteopathy.org.uk](mailto:info@osteopathy.org.uk) • [www.osteopathy.org.uk](http://www.osteopathy.org.uk)



### Cyfarwyddiadau

**Ar y trêen:** Yr orsaf agosaf ar y brif lein yw London Bridge, a cherdded am 10-15 munud wedyn.

### Ar y tiwb (London Underground):

Y gorsafodded agosaf ar y tiwb yw London Bridge (Llinellau Jubilee a Northern, cangen Bank), a cherdded am 10-15 munud wedyn, a Tower Hill (Llinellau District a Circle), a cherdded am 15 munud wedyn.

**Ar y bws:** Mae bysus rhifau 188, 78, 42, 381 a RV1 yn stopio ger Osteopathy House.

**Mewn car:** Mae gennym gyfleusterau parcio, ond mae lleoedd yn brin. Mae yna feysydd parcio cyhoeddus gerllaw hefyd.



[www.facebook.com/goscnews](http://www.facebook.com/goscnews)



[twitter.com/gosc\\_uk](https://twitter.com/gosc_uk)

